Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gyfun Gwent Is Coed
Ffordd Dyffryn
Dyffryn
Casnewydd
NP10 8BX

11/11/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Hydref 2025

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod yr ymweliad interim â'r ysgol ar 8 a 9 Hydref 2025. Roeddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- Gynnal trafodaethau gydag arweinwyr a staff am eu gwaith hunanwerthuso a gwella, a'u gwaith i wella'r ddarpariaeth ar gyfer cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol disgyblion
- Siarad â disgyblion a gwrando ar eu hadborth am yr ysgol
- Ymweld â sampl fach o wersi mewn pynciau ar draws y cwricwlwm
- Craffu ar sampl o waith disgyblion
- Craffu ar sampl fach o ddogfennaeth ysgol berthnasol
- Ymgymryd â gweithgareddau craffu gwaith ac arsylwi gwersi ar y cyd ag arweinwyr a thrafod prif ganfyddiadau'r gweithgareddau hyn

## Ffocws yr ymweliad

### Pa mor effeithiol yw'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant?

Yn ystod yr ymweliad, roedd cyfle i drafod sut mae arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r argymhellion ar arweinyddiaeth ers yr arolygiad craidd. Clywsom fod capasiti'r tîm arwain wedi'i gryfhau er mwyn galluogi arweinwyr i weithredu'n fwy strategol yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Yn ogystal, mae arweinwyr wedi cymryd camau i gryfhau a chysoni prosesau hunanwerthuso. Mae gan yr ysgol galendr sicrhau ansawdd pwrpasol sy'n cynnwys amrediad o weithgareddau buddiol. Mae rhain yn cynnwys arsylwadau dysgu, teithiau dysgu, cyfleoedd i graffu ar waith a chyfleoedd i holi barn disgyblion, rhieni a staff yr ysgol. Braf oedd clywed bod arweinwyr maes yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu at y gweithgareddau hyn. Yn sgil hyn, mae arweinwyr yn coladu gwybodaeth o weithgareddau sicrhau ansawdd i greu adroddiadau cynhwysfawr a rennir gyda staff. Diddorol oedd clywed am y defnydd o'r 'pum piler addysgeg' i grynhoi'r cryfderau a meysydd i'w datblygu yn y dysgu a'r addysgu. Roedd yn dda gweld bod arweinwyr yn ystyried ystod eang o ddata cyrhaeddiad a lles i osod targedau ac i werthuso safonau a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae cyswllt addas rhwng canfyddiadau prosesau hunanwerthuso'r ysgol a'r prif flaenoriaethau gwelliant ysgol gyfan a maes. Mae'n dda nodi bod arweinwyr maes yn gwerthfawrogi cyfarfodydd gyda'u rheolwyr llinell fel cyfleoedd defnyddiol i drafod y cynlluniau gwella adran a chynnydd disgyblion. Clywsom fod arweinwyr yn cynnal hyfforddiant buddiol ar agweddau pwysig o ddysgu ac addysgu ac mae cyfleoedd rheolaidd i staff rannu arfer dda, er enghraifft mewn 'sesiynau sydyn' wythnosol a'r 'grwpiau gwella ysgol'.

Byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- A yw arweinwyr bob amser yn ystyried safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn ddigon penodol wrth iddynt arsylwi gwersi a chraffu ar waith ac wrth iddynt werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth?
- A yw blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol yn ddigon miniog a phenodol er mwyn gyrru gwelliannau yn y meysydd pwysicaf?

### Sut mae'r ysgol wedi cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol disgyblion?

Ers yr arolygiad diwethaf, ymddengys bod yr ysgol wedi cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chynhwysiant. Clywsom sut mae'r ysgol wedi datblygu ei dulliau o gynllunio, cydlynu a gwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY. Yn ystod yr ymweliad, clywsom fel mae'r tîm ADY wedi cydweithio ag ysgolion eraill ac asiantaethau allanol a'u bod yn teimlo bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gysondeb y ddarpariaeth.

Trafodwyd sut sefydlwyd dosbarthiadau penodol, 'Yr Hafren' a 'Tawelfan', er mwyn cryfhau darpariaeth arbenigol yr ysgol. Dros amser, mae'r dosbarthiadau wedi esblygu ac mae'r staff wedi cael cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol i gryfhau eu gallu i ddiwallu anghenion amrywiol y disgyblion. Roedd yn dda clywed bod yr ysgol wedi cryfhau

trefniadau pontio i sicrhau bod trosglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth am anghenion disgyblion unigol yn broses lyfn. Yn ogystal, cryfhawyd y system gyfeirio fewnol, gan alluogi staff i rannu pryderon yn brydlon a sicrhau bod anghenion yn cael eu hadnabod yn gynnar. Clywsom am yr amrediad o ymyraethau llythrennedd, rhifedd a lles a gynigir a'r defnydd o systemau addas i gofnodi ac olrhain effaith yr ymyraethau. Mae hyn yn cefnogi arweinwyr i werthuso'n synhwyrol ac addasu ac atgyfnerthu'r ddarpariaeth, lle bo angen.

Byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- A oes prosesau ar waith i werthuso effeithiolrwydd 'Yr Hafren' a 'Tawelfan' wrth iddynt esblygu dros amser?
- Sut bydd arweinwyr yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn y gwersi i sicrhau bod pob disgybl ag ADY yn cael cefnogaeth briodol i wneud y cynnydd disgwyliedig?

Diolch eto am eich holl gymorth i gynllunio a threfnu ein hymweliad. Rydym yn dymuno'n dda i'r ysgol. Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: [Adroddiad arolygiad Ysgol Gyfun Gwent Is Coed 2022]

Yn gywir

**Lowri Jones**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros dro